

Dyma gyfle i gael blas ar ddarllen dros 280 o gylchgronau poblogaidd a benthyc faint a fynnoch heb ddyddiad dychwelyd. Mae croeso i chi gadw faint bynnag a fynnoch am gyhyd ag y mynnoch.

Os ydych yn defnyddio ein gwasanaeth cylchgronau ar Gyfrifiadur Personol/Mac gallwch ddarllen cylchgronau ar-lein yn syth.

Hefyd gallwch ddarllen cylchgronau all-lein ar declyn Apple neu Android trwy osod ap digidol RBdigital. Gwelwch yr arweinyfrau ar wahân am fwy o wybodaeth am hyn. Mae'n ddrwg gennym ond nid oes modd i chi ddarllen e-Gylchgronau all-lein ar Gyfrifiadur Personol/Mac.

Dilynwch y camau hyn i ddarllen cylchgronau Zinio ar eich Cyfrifiadur neu'ch Mac.

Cam 1 Ewch ati i greu enw defnyddiwr a chyfrinair (bydd angen y rhif ar gefn eich cerdyn llyfrgell arnoch).

Ewch i dudalen Zinio y Llyfrgell <https://wales.rbdigitalglobal.com/>. Byddwch yn gweld dolenni ar gyfer y gwasanaethau e-Gylchgronau ac e-Comics. Cewch ddefnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer y ddau. Gwelwch ein tudalen [e-Comics](#) i weld sut i lawrlwytho'r ap ComicsPlus).

Cliciwch ar 'Creu Cyfrif Newydd' ar frig y tudalen ar y dde.

Rhowch rif eich cerdyn llyfrgell i mewn a chliciwch ar 'Nesaf'.

Yn y ffenestr nesaf teipiwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost. Wedyn bydd eisiau i chi greu cyfrinair.

Dewiswch 'Powys' fel eich Llyfrgell/Lle rydych yn byw pan mae'n gofyn.

Rydych chi bellach wedi mewngofnodi. Cliciwch ar ddolen RBdigital Magazines ac yna cliciwch ar 'Browse Magazines'

Cam 2 Dewiswch eich cylchgrawn cyntaf.

Chwiliwch am deitl neu porwch fesul *genre*. Pan ddewch chi o hyd i gylchgrawn hoffech chi ei ddarllen, cliciwch ar glawr y cylchgrawn i agor y tudalen 'Magazine Detail'.

Dewiswch y botwm 'Checkout'. Hefyd gallwch ddewis derbyn neges pan fydd rhifyn nesaf y cylchgrawn ar gael.

Cliciwch ar 'Start Reading'. (Rhaid i chi fod ar-lein i ddarllen cylchgronau ar Gyfrifiadur Personol/Mac. Rydych dim ond yn gallu lawrlwytho cylchgronau i declyn symudol.)

Cam 3 Darllen y cylchgrawn ar-lein

Ar ôl i chi glicio ar 'Start Reading' bydd y cylchgrawn yn agor mewn tab neu ffenestr newydd.

I droi'r tudalen, cliciwch ar ochr dde (neu chwith) y tudalen 'darllen y cylchgrawn'.

I weld holl dudalennau'r cylchgrawn, cliciwch ar y grid ar ochr chwith ffenestr y Darllenydd (yr eicon sgwâr gyda naw sgwâr).

I weld y cylchgrawn mewn dull tudalen cyfan, cliciwch ar eicon y sgrin gyfan ar ochr chwith ffenestr y Darllenydd (y ffenestr ddarllen - eicon sgwâr gyda phedair saeth.) Gwasgwch y fysell 'Escape' ar eich bysellwrdd i fynd allan o ddull y sgrin gyfan.

Problemau gyda Safari?

Mae angen llwytho a galluogi Adobe Flash ar borwyr Safari. Os nad yw'ch cyfrifiadur yn dangos y cylchgrawn yn eich porwr ewch i <https://get2.adobe.com/flashplayer> i'w osod.

Mae Chrome a Firefox yn borwyr ychwanegol ar Mac sy'n gweithio gyda'r Darllenydd e-Gylchgronau.

Cam 4 Y tro nesaf rydych yn mewngofnodi...

Byddwch yn gweld yr holl gopiâu wnaethoch chi eu benthyc mewn rhestr o dan 'My Collection' (brig y tudalen ar y dde). Cliciwch ar y Bin Sbwriel ar waelod clawr pob cylchgrawn i ddileu'r rhifyn oddi ar y rhestr.

Angen help?

Gallwch glicio ar 'Help' ar waelod y tudalen e-Gylchgronau i gyflwyno cais am gymorth ar-lein i RBdigital.

Fel arall mae croeso i chi anfon e-bost at Wasanaeth Llyfrgelloedd Powys (library@powys.gov.uk) a byddwn yn falch o helpu.